Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

SGANIO ER DIOGELWCH (S4S), SYSTEM RHEOLI STOCRESTRAU GWASANAETH AMBIWLANS CYMRU, ASTUDIAETH

Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos busnes llawn a buddsoddiad cysylltiedig fel y camau cyntaf tuag at ymgorffori egwyddorion ac arferion Sganio er Diogelwch ledled Cymru. Mae diogelwch cleifion wrth wraidd y rhaglen ac mae safonau data a thechnoleg cipio data yn cael eu cyflwyno ledled GIG Cymru. Nid yn unig y bydd awtomeiddio cysylltu cynhyrchion, lleoedd a phobl a nodwyd yn rhai unigryw, yn help wrth atal niwed i gleifion gyda data amser real yn y man lle rhoddir gofal, ond fe fydd hi hefyd yn galluogi olrhain dyfeisiau meddygol sydd wedi'u mewnblannu ar unwaith pe bai angen galw claf yn ôl.
Ym mis Medi 2021 llofnodwyd contract gydag Omnicell ar gyfer Datrysiad Rheoli Stocrestrau Cymru Gyfan, System Rheoli Stocrestrau (IMS), (SupplyX) a fydd yn defnyddio'r safonau hyn a thechnoleg sganio â llaw i gefnogi'r manteision uchod.

Mae'r buddion a ddaw o optimeiddio'r stocrestrau yn rhan annatod o Supply X. Maen nhw hefyd yn golygu bod y gwaith archebu ac ailgyflenwi yn llai beichus o lawer ac yn rhyddhau amser clinigol yn ôl i rolau allweddol.

Bydd y System Rheoli Stocrestrau (IMS) yn targedu'r 5 lleoliad Gwasanaeth Depo Ymbaratoi (MRD) WAST ar gyfer Cam 1 y prosiect i ddechrau. Bydd y datrysiad yn rhoi golwg amser real o stoc ar draws yr ardaloedd targed a bydd yn archebu trwy'r system Oracle yn seiliedig ar PAR stoc a gytunwyd ymlaen llaw a lefelau ail-archebu.
Bydd rhoi hyn ar waith yn cynnwys defnyddio rheolaeth stocrestr SupplyX i reoli ac archebu stoc. Cyflawnir hyn trwy weithredu'r system yn y storfeydd stoc ar draws yr MRD.

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services NHS Trust

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Cefndir

Ar hyn o bryd mae WAST yn archebu gan ddefnyddio'r system Oracle. Bydd yr arweinwyr MRD yn archebu ar gyfer nifer o leoliadau MRD o fewn eu cylch gorchwyl. Mae'r archebion hyn yn cael eu cynnal ar lefel storfa a bydd yr wybodaeth yn cael ei hanfon ar
e-bost yn ganolog. Mae'r archebion yn aml yn rhestrau papur heb unrhyw lefel y cytunwyd arni ymlaen llaw. Gellir seilio'r archebu hyn ar wybodaeth etifeddol a drosglwyddwyd gan bobl eraill neu yn waith dyfalu
yn seiliedig ar brofiad staff.
Yn dilyn adolygu'r MRD mae'r mannau storio yn ymddangos yn daclus ac mae datrysiadau storio digonol yn eu lle. Fodd bynnag nid oes datrysiad labelu ffurfiol i helpu i ddod o hyd i gynhyrchion. Nid oes gan WAST gostau lefel ambiwlans ar hyn o bryd. Mae ganddyn nhw isafswm 'lefel cit' ar gyfer pob ambiwlans, ond nid oes ffordd o olrhain a oes ganddyn nhw fwy neu lai o'r cit nag sydd ei angen. Nid oes ganddynt ychwaith ffordd o olrhain dyddiadau terfyn i geisio helpu i wella gwastraff.

Cynnydd WAST hyd yma:

• Mae Wrecsam a Dobshill yn fyw ac yn defnyddio IMS SupplyX fel prif ffynhonnell archebu.

• Cyfrif stoc llawn MRD Wrecsam a Dobshill.

• Ffurfiwyd gweithgor WAST gyda rhanddeiliaid allweddol o WAST a PCGC.

• Trefnwyd cyfarfod gweithgor ar gyfer diweddariadau cynnydd, camau nesaf a'r camau gweithredu oedd wedi eu nodi

• Set llaw SupplyX wedi'i ffurfweddu yn unol â chanllawiau IGDC i'w defnyddio mewn lleoliadau gorsafoedd Ambiwlans.

• Gwelliannau catalog Oracle WAST ar gyfer 95% o gwmpas y catalog. Mae dros 7000 o wahanol fathau o nwyddau wedi'u rhestru ar y catalog a bellach ar gael trwy SupplyX.

• Ychwanegwyd rhestr gerbydau WAST at system SupplyX ar gyfer costau lefel ambiwlans, ac mae gallu ychwanegol i olrhain a rhesymu gwastraff cod.

• Cefnogaeth yn y gwaith hyfforddi staff allweddol ar gostau lefel IMS ac Ambiwlans.

Buddion

Buddion ariannol - Gweld swm a chost stoc bob amser ac sy'n gwbl archwiliadwy.

Adroddiadau - Set soffistigedig o adroddiadau, Defnydd PAR V, amser arwain cyflenwyr, sefyllfaoedd dim stoc, ac ati.

Diogelwch cleifion - Olrhain dyddiad terfyn, yn barod am GS1/S4S, llai o risg o sefyllfaoedd o ddim stoc

Manteision staff - Caniatáu mwy o amser i staff ofalu am gleifion yn hytrach na chwblhau tasgau gweinyddol



Cyfrifon Buddion taladwy - Llai o Anfonebau sydd wedi'u hoedi (IOH's) oherwydd GRN a phris

Arbedion costio - Llai o ddaliadau stoc, dileu gwastraff - amcangyfrifir 10 - 15% ar ddaliad stoc

Awtomeiddio - Cydymffurfio â chontract, dim proses caffael yn ymwneud ag archeb

Arbedion effeithlon - costau prosesu is, llai o ymyrraeth yn y broses archebu a threulir llai o amser yn chwilio am archebion

Potensial o rannu stoc ar draws safleoedd - gellir gweld maint wrth law ac ar draws pob ardal. Mae'n fwy dibynadwy a threulir llai o amser yn stocrestru

Casgliad

Mae buddsoddiad parhaus PCGC a WAST ym mhrosiect gweithredu Supply X wedi galluogi swyddogaeth Cadwyn Gyflenwi PCGC i ddarparu gwasanaeth effeithlon a chefnogi WAST i fynd yn fyw mewn 2 leoliad MRD Gogledd.

- Cyflawni arbedion osgoi costau.
- Rhyddhau amser staff yn ôl i'r sefydliad.
- Dileu arbedion cyfrif stoc diwedd blwyddyn.

Yn ogystal â rhoi gwell dealltwriaeth i MRD ledled Cymru o'u daliadau stoc, lleoliadau stoc, gwariant ym mhob lleoliad o fewn yr amgylchedd MRD yng nghylch Supply X. Mae wedi rhoi ymdeimlad gwirioneddol o barhad busnes, gan ganiatáu i lefelau stoc gael eu pennu gan ddata a ddeillir o wybodaeth, ac nad yw bellach yn ddata a deillir gan wybodaeth 'a drosglwyddwyd' neu'n cael ei cholli pan fydd staff 'allweddol' yn gadael.

Lessons Learnt

Ymgysylltu

Er mwyn sicrhau llwyddiant, rhaid cynnwys y tîm clinigol yn y prosiect.

Cyfathrebu

Mae'n bwysig bod yr adran glinigol a'r partner busnes yn cyfathrebu'n gyson er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu diweddaru (staff newydd, lleoliadau storfeydd, cynhyrchion, ac ati).

Ymrwymiad

Bydd angen neilltuo amser ac adnoddau o bosibl i'r prosiect er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac y bydd yr adran yn gallu elwa ar fuddion y dyfodol.

Hyfforddiant

Rhaid ystyried argaeledd staff i sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi ac yn cael y cyfle i drafod unrhyw ymholiadau.

Data

Rhaid i archwiliadau stoc a chytundebau stoc llwyth fod ar gael i sefydlu a chytuno ar gynhyrchion y mae angen eu rheoli ynghyd â lefelau PAR.

Y Camau Nesaf...

- Cyflwyno'r broses yn 3 MRD y De
- Sicrhau bod setiau llaw wedi'u ffurfweddu ar gyfer y lleoliadau nesaf yn y De
- Hyfforddiant staff ar system Supply X a setiau llaw ar gyfer y De
- Cefnogaeth gyda'r system archebu gan ddefnyddio'r IMS Supply X newydd
- Cyfarfod cynnydd parhaus gyda gweithgor WAST
- Nodi manteision ar un dudalen i'w gytuno gyda chyllid WAST

Manylion Cyswllt

Ashley Tomlinson
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a WAST - Partner Busnes Rheoli Deunydd Logisteg
ashley.tomlinson2@wales.nhs.uk

S4S PCGC
ScanforSafetyWales@wales.nhs.uk
https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/croeso-i-sganioerdiogelwch-cymru/